**Dewch i Drafod Gwaith Ieuenctid**

Cyfle i bobl ifanc yng Nghymru i siarad am waith ieuenctid gyda Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro Cymru

**ADRODDIAD CYNNYDD – Ionawr 2021**

---

Keith Towler yw'n enw i, ac rwy'n Gadeirydd Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro Cymru. Gwaith y Bwrdd yw cynghori Llywodraeth Cymru ar sut y gall gwasanaethau gwaith ieuenctid weithio i holl bobl ifanc Cymru.

Mae'n bwysig iawn i mi a'r Bwrdd bod gan bobl ifanc rôl ganolog yn y gwaith o helpu i lunio gwasanaethau gwaith ieuenctid drwy Gymru. Rydym yn ddiolchgar i'r holl bobl ifanc yng Nghymru sydd wedi rhoi syniadau i ni a gwneud awgrymiadau.

Roeddwn yn meddwl y byddai'n syniad da i mi ddweud wrthych am yr hyn yr ydym wedi'i wneud mewn ymateb i'ch cyfraniadau dros y misoedd diwethaf.

Cysylltwch â mi'n uniongyrchol os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau. Gallwch gysylltu â mi drwy e-bostio YouthWorkBoard@llyw.cymru.

Y peth cyntaf i'w ddweud yw ein bod wedi cael neges glir bod pobl ifanc yn disgwyl bod yn rhan o'r gwaith o lunio dyfodol gwasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru. Mae hynny'n galonogol ac mae'r Bwrdd yn awyddus iawn i sicrhau ein bod yn creu rhywbeth fel y gall pobl ifanc gael dweud eu dweud am y ffordd y caiff gwasanaethau gwaith ieuenctid eu datblygu'n lleol, yn rhanbarthol ac ar lefel genedlaethol.

Felly, rydym yn ffurfio Pwyllgor Pobl Ifanc i gydweithio â'r Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro. Byddwn yn cydweithio ag Urdd Gobaith Cymru, Llamau a'r Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig i ddatblygu hyn.

Yn ogystal, mae'r Bwrdd wedi cyflwyno ei adroddiad cyntaf i Lywodraeth Cymru. Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 11 Ionawr 2021, ochr yn ochr ag adroddiad ymchwil ar wasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru. Mae fersiwn hawdd ei ddeall ar gael

hefyd. Rydym wedi gwneud rhai argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru, sy’n cynnwys:

- Sefydlu gwasanaeth gwybodaeth ieuenctid newydd ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru.
- Sefydlu cerdyn hawliau ieuenctid newydd i bawb 11 i 25 oed yng Nghymru.
- Sicrhau bod pobl ifanc wrth wraidd y gwaith o gynllunio a datblygu gwasanaethau ieuenctid yng Nghymru.
- Sefydlu sail gyfreithiol newydd i waith ieuenctid yng Nghymru.
- Adolygu sut mae gwaith ieuenctid yng Nghymru yn cael ei gyllido.

Gwyddom fod gwasanaethau gwaith ieuenctid wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i bobl ifanc yn ystod argyfwng COVID-19. Dywedodd pobl ifanc wrthym yn ystod y cyfnod clo eu bod yn pryderu am eu hiechyd meddwl a'u lles eu hunain a’u ffrindiau. Maent hefyd wedi dweud wrthym eu bod am fod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau wrth i bethau wella i bobl ifanc.

Mae 2021 yn flwyddyn bwysig i bobl ifanc yng Nghymru. Am y tro cyntaf, bydd pobl ifanc 16 ac 17 oed yn pleidleisio yn etholiadau'r Senedd, felly nid oes amser gwell i bobl ifanc leisio eu barn ar y materion y maent yn pryderu amdanynt.

Rydym yn eiddgar iawn i barhau â'n gwaith yn ystod 2021 wrth i ni baratoi adroddiad llawn i'w gyhoeddi yn gynnar yn yr haf. Bydd yn adeiladu ar ein hargymhellion ac rydym am barhau i gydweithio â phobl ifanc i sicrhau dyfodol cynaliadwy i wasanaethau gwaith ieuenctid yng Nghymru.

Hoffwn ddymuno 2021 hapus a diogel i chi i gyd.

Pob dymuniad da i chi a diolch am eich cefnogaeth.

Keith Towler
Cadeirydd – Bwrdd Gwaith Ieuenctid Dros Dro Cymru